Mesen

Parch at fywyd / Amynedd / Gofal

Diwrnod diflas arall! Dydd Sadwrn oer a'r niwl yn cau'n dynn dros y dyffryn. Doedd dim byd i'w weld yn unman. Roedd rhan fwyaf o blant y pentref wedi mynd i'r ddinas i wylio'r gêm bêl-droed. Ond doedd gan Dylan fawr o ddiddordeb mewn pêl-droed. Roedd yn well ganddo fo chwarae rygbi ond doedd yna ddim tîm na gêm rygbi yn yr ardal nag ar y teledu. Doedd dim amdani ond eistedd yn y tŷ i wylio'r niwl yn mynd a dod.
"Wyt ti am ddod am dro efo mi?" gofynnodd ei dad iddo ar ôl cinio.
"Na, mae hi'n oer braidd," oedd ateb swta Dylan.
"Tyrd, beth am fynd am dro at y llyn?" meddai ei dad wrtho.
"At y llyn, beth petaen ni ddim yn gweld y llyn ac yn syrthio i mewn iddo," meddai Dylan â gwên ar ei wyneb.
"Tyrd yn dy flaen, rho dy esgidiau cryf am dy draed ac mi awn ni am dro."
"Ond i be?" gofynnodd Dylan unwaith yn rhagor.
"Tyrd fe gei di weld."
Rhoddodd Dylan ddillad cynnes amdano ag i ffwrdd a'r ddau i gyfeiriad y llyn. Dechreuodd Dylan gwyno, "Dydw i'n gweld dim yn y niwl yma...mae hi'n oer ac yn damp...gawn ni fynd adra'n ôl?"
"Tyrd yn dy flaen, mi awn ni at y llyn ac yn ôl," meddai'i dad wrtho'n bendant. Ar ôl cyrraedd at y llyn, roedd pobman yn ddistaw bach. Dim siw na miw yn unman. Doedd hyd yn oed yr hwyaid ddim wedi mentro allan ar y llyn.
"Wyt ti'n gweld y coed acw yr ochr arall. Mi awn i yno i chwilio am fês," meddai'r tad gan gychwyn yn ei flaen. Dilynodd Dylan ef.
"Pam yda ni eisiau mês?" gofynnodd Dylan yn ddigon blin.
"Gei di weld pan awn i adra," oedd ateb y tad.
Ar ôl iddyn nhw gyrraedd y coed derw roedd mês ymhob man. Roedd yn amlwg bod gwynt ddiwedd yr hydref wedi'u

chwythu oddi ar y coed.
"Rhain ydi ffrwythau'r coed derw," esboniodd y tad, "Mi ddaw yna goeden dderw newydd sbon o bob un o'r rhain."
"Ydi coeden fawr fel hon yn mynd i dyfu o fesen fach fel hon?" gofynnodd Dylan mewn braw.
"Ydi," meddai'r tad, "ac mi yda ni am fynd ag ychydig o'r rhain adra efo ni i'w plannu."
Rhoddodd Dylan ddwsin o fês gwyrdd, caled yn ei boced a ffwrdd a'r ddau am adref.
Roedd tad Dylan wedi paratoi potiau llawn o bridd ar gyfer y mês. "Ar ôl plannu'r mês, un mesen i bob potyn, fe gawn ni adael iddyn nhw am flwyddyn yn y potyn yna eu trawsblannu ar gwr y goedwig" meddai'r tad wrth Dylan, "Wel, dyna ni, wedi gwneud ein rhan bach ni i helpu'r amgylchfyd o'n cwmpas."

Gwna fi, O Dduw yn fwy parod i wneud lles i'r amgylchfyd yn hytrach na gwneud drwg. Amen.

✦ Beth fedrwch chi, fel dosbarth, wneud i helpu'r amgylchfyd?
✦ Ysgrifennwch weddïau i ddiolch i Dduw am y byd a hefyd i annog y gwledydd i barchu'r byd.